

Chwaraeon RhCT Astudiaeth Achos

Prosiect Boccia Tŷ Coch

Gan weithio mewn partneriaeth â'r ysgol rydyn ni wedi datblygu'r prosiect yma i wella cyfranogiad mewn Addysg Gorfforol. Dewison ni ganolbwyntio'r prosiect ar gamp gynhwysol Boccia gan ein bod ni o'r farn y byddai modd i'r mwyafrif o ddisgyblion yn Nhŷ Coch gymryd rhan ynddi. Mae Tŷ Coch yn ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer disgyblion 3-19 oed.

Cynigom ni floc chwe wythnos o sesiynau Boccia, yn ystod gwersi Addysg Gorfforol, i grwpiau gallu cymysg. Fe wnaethom ni gyflwyno 5 sesiwn yr wythnos, gan gynnal cyfanswm o 30 sesiwn. Cymerodd 60 o ddisgyblion ran; 35 o fechgyn a 25 o ferched. Roedd y disgyblion yn gymysg, gan ganiatáu iddyn nhw weithio gyda phlant y tu allan i'w grwpiau arferol. Roedd y rhyngweithio yma'n hwb mawr i forâl yr ysgol. Roedd y disgyblion yn edrych ymlaen at eu gwersi Boccia bob wythnos. Roedden nhw wrth eu boddau'n gweithio mewn timau ac yn mwynhau bod yn greadigol wrth wneud eu gemau eu hunain! Gwellodd y prosiect eu sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu.

Roedd y disgyblion wrth eu boddau'n cael profiad o gamp newydd ac maen nhw bellach yn gofyn yn rheolaidd i chwarae Boccia yn ystod amser egwyl. Mae'r ysgol yn bwriadu cynnal Diwrnod Boccia yn fuan, gyda llawer o weithgareddau ar thema Boccia. Bydden nhw hefyd yn hoffi trefnu twrnameintiau yn y dyfodol, gan weithio gyda'r ysgolion arbennig eraill yn RhCT.

Mae Boccia yn gamp gynhwysol wych sy'n caniatáu i'r disgyblion chwarae gyda'i gilydd, waeth beth yw eu gallu. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y disgyblion:

“Roeddwn i'n hoffi bod yn rhan o dîm”
“Rydw i eisiau ei chwarae eto”
“Roeddwn i'n hoffi helpu fy ffrindiau”

**60**
o bobl yn cymryd rhan

**100%**
nawr yn teimlo'n fwy egniol, yn amlach

**100%**
yn bwriadu parhau i fyw'n heini

**100%**
yn teimlo'n iachach

**100%**
yn teimlo'n fwy hyderus

**100%**
yn teimlo'n hapusach

**100%**
wedi gwneud ffrindiau newydd

